

CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

01248 602131

CyngorLlanllechid@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn Neuadd Talgai, Tal y Bont
ar nos Iau 8 Tachwedd, 2018 am 1900**

1. PRESENNOL:

Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Wyn Bowen Harris

Y Cynghorydd Alun Thomas

Y Cynghorydd Margaret Fernley

Y Cynghorydd Geraint Hughes

Y Cynghorydd Evan Jones

Ward Llanllechid Uchaf

Y Cynghorydd Jên Morris

Y Cynghorydd Kevin Williams

Y Cynghorydd Dafydd Jones

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Evan Jones.

2. Ymddiheuriadau gan y Cyng. Myfanwy Jones

3. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Hydref, 2018.

4. Materion yn codi o'r cofnodion

Palmant Tan y Lôn at 'Gypsy Corner'- Cyngor Gwynedd wedi cwblhau'r gwaith o glirio'r palmant. Penderfynwyd anfon nodyn o ddiolch, ac i ofyn os yw'r gwaith wedi ei raglennu'n flynyddol nawr, fel a addawyd. Heb derbyn cadarnhad hyd yn hyn.

Yr hen A5 - problem gyda gor-yrru ar y ffordd sydd yn ardal 30mya. Cyngor Gwynedd wedi cynnal asesiad cyflymder traffig ar y ffordd dan sylw, gyda'r canlyniad yn 36mya ar gyfartaledd. Cyngor Gwynedd wedi danfon ymlaen i'r Heddlu i ofyn am sylw priodol. Disgwyl ymateb a diweddariad gan yr Heddlu.

Eglwys Llan - Tad Matthews yn disgwyl ail ymweliad gan gwmni i gael amcan bris er mwyn i'r pwyllgor Eglwysig wneud penderfyniad dros atgyweirio'r difrod.

Crymlyn, Aber - problem gyda lori fawr wedi dod lawr y ffordd ac wedi achosi difrod i'r bwthyn ac wedi bod yn sownd yno dros nos. Swyddog o'r Cyngor wedi ymweld, ac ei ganlyniad oedd, fod lleoliadau a niferoedd arwyddion yn dderbyniol. Fodd bynnag, awgrymwyd bydd yn fanteisiol i newid darluniad un o'r arwyddion i gynnwys symbol,

yn ogystal a geirfa. Cadarnhawyd y bydd trefniadau i newid yr arwydd yn cael ei wneud maes o law.

Noson wobrwyo Ysgol Dyffryn Ogwen – yr aelodau yn awyddus i gyfrannu tuag at y noson flwyddyn nesaf. Y Clerc wedi anfon e-bost i'r ysgol, ond ddim ymateb hyd yn hyn.

5. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

J Johnson (Torri gwair – mis Hydref)

£50.00

6. Gohebiaeth

Cyflwynwyd- ebost gan Gareth Llwyd, Ysgrifennydd Pwyllgor Menter Iaith Dyffryn Ogwen ynglŷn a busnesau ar safle Llys y Gwynt, Llandygai. Penderfynwyd danfon llythyr/ebost at Cyngor Gwynedd i nodi ein cefnogaeth i'r llythyr hwn, ac ein bod yn cytuno yn llwyr fod angen amod ar unrhyw ddatblygiad, ac y dylai hwn fod yn rhan o'r polisi.

Cyflwynwyd – dyfynbris gan Kehoe Countryside Ltd - i dorri gwair cae pêl-droed a caeau chwarae Talybont yn flynyddol.

Cyflwynwyd – ebost gan Howard Huws, Cylch yr Iaith – cais i aelodau fynegi cefnogaeth i'r ddogfen. Penderfynwyd ymateb i gydnabod a diolch am ei ebost, a dymuno yn dda iddynt.

Cyflwynwyd- Holiadur Toiledau Cyhoeddus gan Cyngor Gwynedd – yr aelodau i ymateb yn unigol.

Cyflwynwyd – Digwyddiad Deddf Llesiant Cendlaethau'r Dyfodol ar y 30 Tachwedd 2018 – penderfynwyd y bydd y Clerc yn mynychu.

Cyflwynwyd – ebost gan Airfields of Britain Conservation Trust ynglŷn a plac coffa – yr Clerc i holi os yw'n bosib i'r plac gael ei ddanfon yn syth i Fferm Glanmôr.

Cyflwynwyd – ebost gan Edward Nutting – cais am nawdd at ei ymdrech i gwblhau hanner marathon Conwy. Yr aelodau i ymateb yn unigol.

7. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

Partneriaeth Ogwen- pawb wedi derbyn copi o raglen waith y Bartneriaeth. Holl aelodau yn derbyn ac yn hapus gyda'r cynnwys.

Diwyddiad Cludiant Cymunedol – y Cyngor. Jên Morris, Evan Jones a Margaret Fernley wedi mynychu'r digwyddiad a gafwyd ei gynnal yng Nghlwb Criced Bethesda ar 23ain Hydref 2018. Nodwyd fod y cyfarfod yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol iawn, ac yn diolch i Bartneriaeth am drefnu'r digwyddiad.

8. Y Mynydd

Trafodwyd y canlynol:

8.1 Angen ychwanegu un porwr i'r rhestr dyraniad mynydd 2018.

9. Penderfyniadau Cynllunio:

NP3/21/47F

Fferm y Gell, Llanllechid

Adeiladu sied wartheg

Penderfyniad- pryderon gan bod y sied yn edrych yn ofnadwy o fawr, argymell bod swyddog o'r Parc yn ymweld â'r safle.

Ceisiadau Cynllunio:

Dim ceisiadau.

10. Materion Brys

Lôn Goed – y ffôs ar hyd y ffordd angen sylw. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.

Gwrychoedd ar hyd ffordd Coetmor – gwrychoedd ar hyd y ffordd ger fynwent Coetmor angen eu torri. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.